

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn **Answers to Questions not reached in Plenary** **09/11/2011**

Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg.

Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant/signifies that the Member has declared an interest.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg/signifies that the question was tabled in Welsh.

Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities
- 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau **Questions to the Minister for Local Government and Communities**

Atebwyd cwestiynau 1 i 4 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 1 to 4 answered in Plenary.

Allyriadau o Drafnidiaeth

Transport Emissions

5. Simon Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau o drafnidiaeth. OAQ(4)0063(LGC) [W] Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

5. Simon Thomas: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans to reduce transport emissions. OAQ(4)0063(LGC) [W] Transferred for written answer.*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Yr wyf wedi ymrwymo i ddarparu system drafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd yr wyf yn rhoi blaenoriaeth i'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a fydd yn ein helpu i wella cyfnewidfeydd, lleihau tagfeydd ar y rhwydwaith a chefnogi'r broses o newid moddau trafnidiaeth. Bydd hyn, ar y cyd â gwelliannau yn y dechnoleg motorau, yn lleihau'r allyriadau o drafnidiaeth.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I am committed to delivering a sustainable transport system for Wales. I am currently prioritising the national transport plan that will help us to improve interchanges, reduce network congestion and support modal shift. This, along with improvements in engine technology, will reduce carbon emissions from transport.

Atebwyd cwestiynau 6, 7, 10, 11, 12, 13, 14 a 15 yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiynau 8 a 9 yn ôl.

Questions 6, 7, 10, 11, 12, 13, 14 and 15 answered in Plenary. Questions 8 and 9 were withdrawn.

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

*Atebwyd cwestiynau 1, 2, 3, 5 a 6 yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.
Questions 1, 2, 3, 5 and 6 answered in Plenary. Question 4 was withdrawn.*

Cyhoeddi Cofnod y Trafodion

7. Simon Thomas: *Pa sylwadau y mae'r Comisiwn wedi'u cael eleni ynglyn â chyhoeddi Cofnod y Trafodion. OAQ(4)0022(AC) [W] Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas): Cyflwynwyd llawer o sylwadau i'r Comisiwn o blaid cael Cofnod cwbl ddwyieithog. Ar 14 Gorffennaf, penderfynodd y Comisiwn, mewn egwyddor, y byddai Cofnod o'r fath yn cael ei ddarparu, cyhyd â bod modd dod o hyd i drefniant cynaliadwy i wneud hynny am gost hirdymor rhesymol. Bu ein gwaith i ddod o hyd i drefniant o'r fath yn galonogol. Mae swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg i gynorthwyo â'r gwaith o gyfieithu, ac yn defnyddio gwaith ymchwil a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfieithu peirianyddol fel sail i hynny. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn ar wasanaethau dwyieithog i ben ar 14 Hydref. Gofynnwyd i'r cyhoedd roi eu sylwadau ar y Bil drafft ar ieithoedd swyddogol a'r cynllun gwasanaethau dwyieithog drafft. Fel rhan o'r ymgynghoriad, daeth nifer o sylwadau i law ynghylch cael Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog. Bydd y Comisiwn yn ystyried ei ymateb i'r mater ymhellach yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd.

Publication of the Record of Proceedings

7. Simon Thomas: *What representations has the Commission received this year regarding the publication of the Record of Proceedings. OAQ(4)0022(AC) [W] Transferred for written answer.*

Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas): Many representations have been made to the Commission in support of a fully bilingual Record. On 14 July, the Commission decided in principle to provide such a Record, provided a sustainable arrangement for doing so at a reasonable long-term cost could be found. Our work to identify such an arrangement has been encouraging. Officials are exploring the potential use of technology to assist with translation, informed by research conducted by the Welsh Language Board on machine translation. The Commission's public consultation on its bilingual services closed on 14 October. The public were asked to comment on the draft official languages Bill and bilingual services scheme. We received many comments regarding a fully bilingual Record of Proceedings as part of the consultation. The Commission will be considering its response to the matter further at its meeting on 24 November.